

1af o Orffennaf 2020

Annwyl Gyngorydd,

Gwysir chwi i gyfarfod o Gyngor Tref Frenhinol Caernarfon i'w gynnal Nos Fawrth, 7fed o Orffennaf 2020, yn syth ar ôl y Cyfarfod Blynnyddol.

Oherwydd Covid-19 bydd y cyfarfod yn cymryd lle o'ch cartref, ar lein drwy ddefnyddio system "Zoom".

Bydd gwahoddiad ffurfiol i'r sustem trwy "Zoom" yn cael ei anfon atoch cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Yn gywir,

**Sion Wyn Evans
Clerc y Dref**

Rhaglen

1.Ymddiheuriadau

2.Cyhoeddiadau'r Maer

3.Datgan Buddiant Personol

4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

- (i) Cyngor Llawn, 9fed o Fehefin 2020 (**Atodiad Gwyrdd**).
- (ii) Pwyllgor Adloniant, 18fed o Fehefin 2020 (**Atodiad Glas**).
- (iii) Pwyllgor Cyllid, 23ain o Fehefin 2020 (**Atodiad Pinc**).

6. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu.

7. Cyfrifon Incwm a gwariant a chysoni cyfrifon

8. Cyfarfod cyntaf ar ôl cyfarfod blynyddol

Trafod y materion canlynol:

(i)	Derbyn enwebiadau ar gyfer pwyllgorau presennol (copi ynghlwm)
(ii)	Enwebiadau cyrff allanol (copi ynghlwm)
(iii)	Penodi unrhyw bwyllgorau newydd
(iv)	Mabwysiadu rheolau ariannol a'r cod ymddygiad (copi ynghlwm)
(v)	Adolygu aelodaeth Cyngor / neu weithwyr o gyrff eraill

Trafodwyd y canlynol yn y cyfarfod o'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 9fed o Fehefin:

(i)	Adolygu trefniadau unrhyw ddirprwyo i bwyllgorau / is-bwyllgorau
(ii)	Adolygu cylch gorchwyl pwyllgorau
(iii)	Rheolau Sefydlog
(iv)	Mabwysiadu rhestr asedau ac asesiad risg ariannol
(v)	Adolygu trefniadau cwynion
(vi)	Adolygu polisïau
(vii)	Penodi Archwilydd Mewnol

9. Archwiliad 2019/20

Cyflwyno:

- (a) Adroddiad y Clerc am Archwiliad 2019/20 a gyflwynwyd i'r Panel Cyllid ar y 23ain o Fehefin (copi ymghlwm).
- (b) Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Cyllid yn ei gyfarfod ar y 23ain o Fehefin, cyflwyno'r ffurflen flynyddol 2018/19 wedi ei chymeradwyo er sylw'r Cyngor Llawn (copi ymghlwm).

10. Adeilad yr Institiwt

Cyflwyno adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad ar faterion yn ymwneud ag Adeilad yr Institiwt (copi ynghlwm).

11. Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

Yn unol â phenderfyniad y Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 9fed o Fehefin, cyflwyno Polisi Cyfryngau Cymdeithasol diwygiedig drafft i sylw'r aelodau (copi ynghlwm).

12. Taflen Croeso Caernarfon

Cyflwyno llythyr a Thaflen Croeso Caernarfon i sylw'r aelodau er mwyn eu hatgoffa, ac ystyried eu defnyddio yn y dyfodol (copi ynghlwm).

13. Y Gofestr Asedau

Yn dilyn trafodaeth yn y Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 9fed o Fehefin, ac yn dilyn ymgynghori gyda'r Archwilydd Mewnol, gofyn am ganiatâd i ail-lunio rhestr asedau'r Cyngor cyn awdit 2020/21 i gynnwys dim ond asedau sydd ac amcangyfrif gwerth uwch na £250 neu sydd o bwys hanesyddol.

14. Covid-19

Cyflwyno cais gan Rheolwr Rhaglenni Adfywio Cyngor Gwynedd i gael cynrychiolaeth o'r Cyngor ar grŵp bychan o'r Aelodau Lleol, Cyngor Tref a Grwpiau Busnes yn lleol. Gofynnir am ddau 2 gynhyrchiolydd.

15. Blodau ar y Maes

Cyflwyno adroddiad y Clerc o ran y cynllun i gael blodau ar y Maes.

16. Cyfrifon yr Institiwt

Cyflwyno Cyfrifom yr Institiwt am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2020 (copi ymghlwm).

17. Neges o'r Gaiman

Cyflwyno gwybodaeth gan Daniel Hughes, Cadeirydd Cymdeithas Dewi Sant Trelew, ynglŷn â dathliadau ar yr 28ain o Orffennaf, sef Gŵyl y Glaniad, i gofio glanio y Cymry ym Mhatagonia 155 o flynyddoedd yn ôl. Hoffai'r Gymdeithas gael neges fideo o gyfarchion gan y Maer gan fod Caernarfon yn dref enedigol Lewis Jones, a'i fod yn dref sydd wedi ei gyfeillio gyda Trelew.

18. Cwestiynau